



Y Perchennog/Meddiannydd

Gofynnwch Am/Please Ask For: Andrew McGowan

Ffôn/Tel 01443 425001

Fy Nghyf/My Ref: IF005

Eich Cyf/Your Ref:

Dyddiad/Date: 12 Ionawr 2017

Annwyl Syr/Fadam,

CYNLLUN DIOGELWCH Y FFORDD ARFAETHEDIG - FFYRDD AMRYWIOL, TRALLWNG

Byddwch chi eisoes yn gwybod fod y Cyngor wedi cynnal ymarfer ymgynghori ym mis Tachwedd 2016. Roedd hyn yn ymwneud â'r cynigion i gyflwyno mesurau diogelwch y ffyrdd ledled y Trallwng, gan gynnwys y canlynol;

- Terfyn cyflymder o 20mya ar bob stryd yn y Trallwng
- Dulliau tawelu traffig
- Ailfodelu parcio yn Central Square
- Gwella cyffordd Middle Street/Ralph Street a Ralph Street/Parade.

Anfonon ni tua 1100 o lythyrau i'r gymuned. O'r ymatebion a ddaeth i law, roedd 180 o blaid y cynlluniau ac roedd 31 yn eu gwrthwynebu.

Er mwyn ymateb i'r sylwadau a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad, rydyn ni wedi newid y cynlluniau yn y ffyrdd canlynol lle y bo hynny'n hanfodol neu'n briodol;

- Rydyn ni wedi addasu nifer o leoliadau'r dulliau tawelu traffig.
- Byddwn ni'n cynnwys y cynigion i wneud Fish Lane yn ffordd unffordd i gyfeiriad y gogledd yn yr ymgynghoriad.
- Rydyn ni wedi newid lleoliad nifer o fannau cychwyn y parth 20mya er mwyn ystyried cyfyngiadau ffisegol ar y safle.

Mae modd gweld manylion am y cynigion sydd wedi'u haddasu ar y darlun sydd wedi'i atodi **G-0-10**. Serch hynny, o ganlyniad i faint y gwelliannau, doedd dim modd cynnwys y Trallwng yn ei gyfanrwydd ar un darlun A3. Efallai yr hoffech chi ymweld â www.rctcbc.gov.uk/traffig, lle bydd modd i chi weld yr holl ynigion ar gyfer ardal y Trallwng ar un darlun electronig, G-0-11.

Mae cam nesaf y broses yn cynnwys cyfnod Hysbysu'r Cyhoedd. Caiff y manylion am y cynigion terfynol eu hysbysebu er mwyn rhoi cyfle olaf i unrhyw aelod o'r cyhoedd nodi unrhyw bryderon yn ffurfiol. Pe hoffech chi gyflwyno sylwadau am y cynlluniau, anfonwch nhw ar bapur erbyn 2 Chwefror 2017, ar gyfer sylw'r Blaen Beiriannydd, Uned Materion Rheoli'r Traffig, Tŷ Sardis, Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU Fel arall, efallai hoffech chi ymateb drwy anfon neges ebost: ghwasanaethautraffig@rctcbc.gov.uk

Chris Lee C.P.F.A

Cyfarwyddwr Cyfadrn y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen | Group Director, Corporate and Frontline Services



Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhwch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog. We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

Mae gofyn statudol i'r Cyngor hysbysu ei gynigion i roi terfyn cyflymder 20mya, dulliau tawelu traffig a system unffordd bosibl yn Fish Lane ar waith. Serch hynny, does dim gofyn iddo wneud hyn ynglŷn â'r gwaith adeiladu ar y llwybr cerdded yn Central Square ac ar gyffyrdd Ralph Street/Parade a Ralph Street/Middle Street. Mae hyn am eu bod nhw'n cael eu hystyried yn waith ar y briffordd sydd wedi'i ganiatáu. O ganlyniad i hynny, bydd y gwaith ar y gwelliannau yma i gyffyrdd yn dechrau ar unwaith, er mwyn sicrhau bod y ffyrdd mor ddiogel â phosibl. Mae hyn am fod y Cyngor eisoes wedi ymgynghori arnyn nhw ac wedi rhoi ystyriaeth briodol i'r ymatebion a ddaeth i law ynglŷn â'r cynigion yma yn barod.

Er gwybodaeth, rwyf wedi atodi rhestr o gwestiynau cyffredin ar gyfer cynlluniau tawelu traffig fel hyn. Efallai y byddan nhw'n ddefnyddiol i chi wrth ystyried y cynigion.

I gloi, mae eich sylwadau yn bwysig i ni. P'un a ydych chi o blaid y cynigion neu yn eu herbyn, bydd eich ymateb yn helpu'r Cyngor i wneud penderfyniad ynglŷn â pharhau â'r cynllun.

Yn gywir

Andrew McGowan
Uwch Beiriannydd, Materion Rheoli Traffig